

Gweithio dros Gymru

Ar sail ein gwerthoedd craidd o fod yn fasnachol, yn ddidwyll a stiwardiaeth, rydym yn ymroddedig i gynnig gwerth tymor hir. Mae ein gwaith yn canolbwyntio ar harneisio a gwella adnoddau naturiol y wlad a chreu gwerth tu hwnt i'r elw ariannol.

Rydym yn fusnes sy'n cael ei yrru gan werthoedd sy'n buddsoddi yn rhai o asedau pwysicaf y Deyrnas Unedig ac yn eu rheoli, gan sicrhau eu bod yn cael eu gweithio, eu datblygu a'u mwynhau yn gynaliadwy i gynnig y gwerth gorau yn y tymor hir. Mae ein gweithgareddau yn cynnwys buddiannau ynni, gwledig, arfordirol ac adwerthu yng Nghymru, ac mae'r adroddiad hwn yn amlygu rhai o'r llwyddiannau a'r cynnydd a wnaed yn 2015/16.

Sut yr ydym yn gweithio

Partneriaeth a chydweithio yw prif nodweddion ein dull rheoli asedau gweithredol ar draws y Deyrnas Unedig, ac nid yw hynny'n fwy gweladwy yn unlle nag y mae yng Nghymru. Er bod y sefydliadau niferus ac amrywiol yr ydym yn gweithio gyda nhw yn cynrychioli amrywiaeth eang o fuddiannau, maent yn rhannu un amcan cyffredin: cynnig canlyniadau cadarnhaol i Gymru.

Rydym yn deall nodau Llywodraeth Cymru ac yn ystod y flwyddyn buom yn gweithio'n glos gyda nifer o adrannau ar flaenoriaethau sy'n gyffredin rhyngom. Mae tîm Ystâd y Goron yn cwrdd â Gweinidogion ac eraill yn gyson, ac yn dilyn etholiad mis Mai rydym yn edrych ymlaen at adeiladu ar ein perthynas sydd wedi ei sefydlu ac yn un ragweithiol gyda'r Llywodraeth.

Rydym hefyd yn gweithio'n glos gyda Chyfoeth Naturiol Cymru – y sefydliad a noddir gan Lywodraeth Cymru sydd wedi cael y dasg o reoli adnoddau naturiol y wlad er mwyn llunio amgylchedd iach a gwydn, a all gefnogi ffyniant economaidd a chymdeithasol.

Cynhaliwyd ein chweched digwyddiad blynyddol i randdeiliaid yng Nghymru ym mis Tachwedd yn y Senedd ym Mae Caerdydd. Ar sail y thema 'Gweithio mewn partneriaeth dros Gymru ffyniannus', amlygodd y digwyddiad y cyfraniad yr ydym yn ei wneud ar draws y genedl, gyda nifer o'n partneriaid busnes yn trafod eu prosiectau penodol. Roedd y partneriaid yn cynnwys RWE, Cymdeithas Cynhyrchwyr Agregau Morol, Ynni Morol Sir Benfro, Menter Môn, Fforwm Arfordirol Sir Benfro a Tidal Energy Cyf.

“Os caiff ei harneisio yn briodol, gall ein hadnoddau gwynt, tonnau a llanw chwarae rôl bwysig yn ein sicrwydd o ran ynni a'n huchelgais o weld dyfodol carbon isel i Gymru. Dyna pam ein bod mor ddifrifol am ddatblygu elfennau adnewyddadwy morol yng Nghymru, a'n bod yn ymroddedig i weithio gyda rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig, a diwydiant, i lunio sector morol o safon byd, ac yn ei thro, Gymru fwy ffyniannus.”

Ble'r ydym yn gweithio

Mae ein cyfrifoldebau yng Nghymru yn cynnwys gwely'r môr hyd at 12 milltir forol. Mae gennym fuddiannau mewn ynni adnewyddadwy, olew a phibellau nwy, codi agregau morol, telegyfathrebu a cheblau ynni. Yn ychwanegol, mae gennym hawliau penodol hyd at y silff gyfandirol (ac eithrio hydrocarbonau) ac rydym yn rheoli tua 65 y cant o flaendraeth Cymru.

Ar y tir, rydym yn berchen ar ddwy ystâd wledig ym Mhumlumon a Thyndyrn sy'n 1,310 hectar i gyd (3,238 erw) o dir amaethyddol wedi ei osod a 26,900 hectar (66,470 erw) o dir comin. Er mai tir pori garw yw hwn yn bennaf, mae hefyd yn adnodd naturiol pwysig sy'n cael ei fwynhau gan bawb sydd â diddordeb yng nghefn gwlad

Cymru. Mae'r buddiannau economaidd ychwanegol yn cynnwys porthladdoedd, marinas a ffermydd gwynt ar y tir.

Ar ôl i ni gyflawni ein cynlluniau rheoli asedau yn llwyddiannus ar Barc Siopa Morfa yn Abertawe fe benderfynwyd y byddem yn gwerthu'r parc yn gynnar yn 2016 i Ashby Capital, yn unol â'n strategaeth ar gyfer y portffolio manwerthu rhanbarthol.

Rydym hefyd yn gyfrifol am tua 100,000 hectar (247,000 erw) o berchenogaeth mwynau yn unig, gydag wyth safle ar hyn o bryd ar les i gloddio mwynau. Yn ychwanegol, rydym yn berchen ar aur ac arian, a elwir yn Fwyngloddiau Brenhinol, ble bynnag y byddant yn cael eu canfod yn y Deyrnas Unedig, ac mae gennym ddwy les yn eu lle ar gyfer mwyngloddio aur yng Nghymru.

Mae ein cyfrifoldebau yng Nghymru yn cynnwys gwely'r môr hyd at 12 milltir forol. Mae gennym fuddiannau mewn ynni adnewyddadwy, olew a phibellau nwy, codi agregau morol, telegyfathrebu a cheblau ynni.



Gweithio gyda'n gilydd dros Gymru

Yn ystod y 12 mis diwethaf gwelwyd cynnydd da, wrth i ni weithio mewn partneriaeth gyda rhanddeiliaid i gefnogi busnesau a chymunedau lleol, yn arbennig trwy ein harbenigedd yn y sector ynni adnewyddadwy.

Cefnogi ynni adnewyddadwy

A ninnau yn rheoli gwely'r môr yn y Deyrnas Unedig, mae ynni adnewyddadwy yn cynnig cyfle anferth i ddatgloi gwerth adnoddau naturiol. Yn ystod 2015/16 fe wnaethom barhau i weithio gydag amrywiaeth eang o randdeiliaid, gan ddefnyddio ein sgiliau, gwybodaeth a phrofiad i ddatgloi potensial gwely'r môr i Gymru.

Gwynt ar y môr

Ym mis Mai daeth ail fferm wynt forol fwyaf y byd yn weithredol oddi ar arfordir Cymru, gan gadarnhau statws y wlad fel arweinydd byd-eang o ran ynni adnewyddadwy. Mae gan fferm wynt Gwynt y Môr, a gostiodd £2 biliwn, y gallu i gynhyrchu 576 MW, gyda 160 o dyrbinau gwynt yn darparu ynni adnewyddadwy i tua 400,000 o gartrefi. Agorwyd y fferm wynt, sy'n eiddo i RWE, Stadtwerke München, y Banc Buddsoddi Gwyrdd a Siemens, yn swyddogol gan Carwyn Jones, Prif Weinidog Cymru, a ddywedodd: "Mae Gwynt y Môr yn llywyddiant anferth a bydd yn parhau i ddwyn nifer o fanteision i Ogledd Cymru. Mae cwmnïau lleol wedi bod ymhlith y rhai sy'n cael budd yn ystod y gwaith o adeiladu'r safle a bydd yn cynnig swyddi o safon uchel a chyfleoedd am flynyddoedd i ddod."

Mae Porthladd Mostyn yn Sir y Fflint ymhlith y cwmnïau lleol hynny fydd yn cael budd. Mewn cytundeb gwerth mwy na £50 miliwn dros oes y fferm wynt, mae Porthladd Mostyn yn rhoi cefnogaeth i'r gwaith adeiladu a chanolfan i'r gweithrediadau a'r gwaith cynnal a chadw ar gyfer Gwynt y Môr, gan gynnwys datblygu seilwaith newydd a chreu mwy na 100 o swyddi peirianyddol tymor hir. Mae RWE hefyd wedi adeiladu pontŵn newydd a chanolfan weithrediadau a chynnal a chadw a adeiladwyd i'r diben ym Mostyn i wasanaethu tair fferm wynt y cwmni ar arfordir Gogledd Cymru: Gogledd Hoyle, y Rhyl a Gwynt y Môr.

Rhannu gwybodaeth

Fel rhan o'n dull cadarnhaol o reoli asedau yn weithredol ac yn y tymor hir, rydym yn parhau i fuddsoddi mewn gweithgareddau ac adroddiadau sy'n dwyn rhanddeiliaid allweddol o fyd diwydiant at ei gilydd a'u galluogi i rannu gwybodaeth ac arferion gorau. Er enghraifft, yn ystod 2015 cyhoeddasom fanc sylweddol o ddata o gynllun blaenorol prosiect gwynt ar y môr Celtic Array oddi ar arfordir Ynys Môn. Mae'r data yn cwmpasu cyfoeth o wybodaeth, gan gynnwys: deunydd amgylcheddol, fel arolygon adar a mamaliaid; gwerthusiadau o weithgareddau dynol, fel mordwyo, llongau a data archeolegol; a manylion amgylcheddol ffisegol, fel data geodechnegol a geoffisegol a samplo gwaddol. Trwy sicrhau bod y wybodaeth hon ar gael yn rhwydd trwy ein Cyfnwidfa Ddata Forol, rydym yn helpu i ysgogi ymchwil, cefnogi'r byd academiaidd a chyfrannu at ddatblygiad cynaliadwy gwely'r môr o gwmpas arfordir Cymru.

Cerrynt y llanw, ystod y llanw a thonnau

Mae dyfroedd Cymru ymhlith y rhai mwyaf addas yn y byd ar gyfer datblygu technolegau blaengar a all drawsnewid ynni'r tonnau a'r llanw yn drydan adnewyddadwy. Dros y 12 mis diwethaf gwelwyd cynnydd sylweddol ar nifer o gynlluniau, gan gynnwys gweithredu tyrbîn llanw cyntaf y wlad. Datblygwyd y cynllun gan Tidal Energy Ltd o Gaerdydd a bydd y prosiect ar Swnt Dewi, oddi ar arfordir Sir Benfro, yn rhoi tystiolaeth ar sut y mae'r ddyfais cerrynt y llanw 400 kW DeltaStream yn rhyngweithio â'r amgylchedd o'i gwmpas.

Ym mis Mai daeth ail fferm wynt forol fwyaf y byd yn weithredol oddi ar arfordir Cymru, gan gadarnhau statws y wlad fel arweinydd byd-eang o ran ynni adnewyddadwy.

Yn y pen draw bwriad y cwmni yw cynhyrchu 10 MW o ynni ar y safle, gan gyfrannu at dargedau ynni adnewyddadwy Llywodraeth Cymru.

Yn ystod y flwyddyn llwyddodd datblygwyr i symud cynlluniau ymlaen ar gyfer dau barth arddangos yr oeddem wedi eu dyfarnu'r flwyddyn flaenorol. Mae Menter Môn wedi dechrau'r broses o ddynodi tenantiaid posibl ar gyfer parth cerrynt llanw Gorllewin Ynys Môn tra bod Wave Hub Ltd yn gweithio gyda Ynni Morol Sir Benfro i ddatblygu'r parth tonnau yn Ne Sir Benfro. Gorffennwyd y cynlluniau dichonolrwydd a'r Asesiadau Effaith Amgylcheddol ar gyfer y ddau brosiect ac mae'r datblygwyr wedi paratoi ceisiadau am grantiau gan Gronfa Datblygu Ranbarthol Ewrop.

Dewiswyd y dyfroedd oddi ar arfordir Ynys Môn hefyd ar gyfer prosiect cerrynt llanw blaengar sy'n cael ei ddatblygu gan Minesto. Ar ôl i ni ddyfarnu Cytundeb i Lesio 10 MW ar gyfer safle Dwfn Caergybi yn 2014, mae Minesto yn awr wedi cyflwyno cais am ganiatâd i dair uned 0.5 MW.

Ym mis Medi 2015, fe lanswyd cyfle arall i lesio gennym a fydd yn cynnig mynediad at wely'r môr ar gyfer prosiectau cerrynt y llanw neu donnau am hyd at 3 MW ar draws y Deyrnas Unedig, gan gynnwys yn nyfroedd Cymru. Mae hyn yn rhan o'n hymrwymiad parhaus i helpu'r diwydiant gymryd y cam i fyny i ddefnyddio system arae ar raddfa fasnachol.

Yn sector newydd amrediad llanw, rydym yn cefnogi amrywiol gynlluniau yn rhagweithiol, gan gynnwys proses barhaus i lesio gwely'r môr yn ogystal ag ymchwil gweithredol i gyfleoedd marchnad yn y dyfodol. Mae Cymru yn mwynhau un o'r adnoddau ystod llanw gorau o amgylch ei harfordir deheuol a gogleddol, ac rydym yn gweithio'n glos gyda Llywodraeth Cymru, yr Adran Ynni a Newid Hinsawdd (DECC) a'r diwydiant ehangach i helpu'r sector i lwyddo.

“Mae Ynni Morol Sir Benfro (MEP) wedi bod yn gweithio'n glos gydag Ystâd y Goron ers ein sefydlu yn 2010. Mae Ystâd y Goron yn cefnogi ein nod o sefydlu canolfan ragoriaeth ar gyfer creu ynni morol cynaliadwy yng Nghymru. Nid yn unig mae'r cyfraniad ariannol gan Ystâd y Goron yn gadael i ni gyflawni ein nodau, rydym hefyd yn cael budd o'u harbenigedd, profiad a chefnogaeth yng ngeithgor MEP. Mae Cymru mewn sefyllfa dda i chwarae rôl amlwg mewn ynni morol. Mae gan Ystâd y Goron ran allweddol i'w chwarae i'n helpu i gyflawni'r uchelgais hwnnw ac rydym yn edrych ymlaen at barhau i gydweithio yn y dyfodol.”

David Jones, Cyfarwyddwr Prosiect, Ynni Morol Sir Benfro

Cefnogi amrywiaeth eang o fusnesau a chymunedau ar draws Cymru



Busnesau gwledig

Ffermio defaid yw'r prif weithgaredd ar ein ystadau gwledig ym Mhumlumon a Thyndyrn. Rydym yn cefnogi rheolaeth ar y tir ac yn buddsoddi i sicrhau bod ei nodweddion unigryw yn cael eu cadw. Er enghraifft, yn 2015 fe wnaethom adnewyddu'r tŷ fferm ym Mhumlumon ac yn Thyndyrn fe wnaethom barhau i fod yn bartneriaid i Cadw wrth adnewyddu'r trefniadau i warchod yr Abaty a sicrhau ei fod yn parhau ar agor ac yn croesawu ymwelwyr.

Ar y tir comin, buom yn gweithio gyda'r gymuned leol i helpu tenant newydd, Treks Bunkhouse, gymryd safle cyn Glwb Golf Ffestiniog drosodd. Agorodd y cyfleuster newydd ym mis Tachwedd 2015 ac mae'n awr yn galluogi rhagor o bobl i fwynhau'r ardal hardd yn ogystal â dod ag incwm gwerthfawr i'r ardal.

Agregau a mwynau

Ni sy'n gyfrifol am drwyddedu echdynnu agregau o wely'r môr a mwynau o wyth safle ar y tir yr ydym yn eu lesio i fusnesau sy'n gweithredu yn y diwydiannau calchfaen, craig igneidd a llechi.

Yn ystod y flwyddyn cadarnhaodd adroddiad annibynnol y rôl hanfodol sydd i'r diwydiant hwn yn economi Cymru. Daeth yr adroddiad 'The Economic Significance of the Mineral Products Industry to the Welsh Economy' i'r casgliad bod y diwydiant yn hanfodol i gyflawni polisiau Llywodraeth Cymru o ran datblygu seilwaith, adfywio a chefnogi sectorau sy'n cael blaenoriaeth

fel adeiladu, twristiaeth ac ynni. Ymhlith ei ganfyddiadau allweddol, nododd yr adroddiad bod y sector yn creu £650 miliwn o refeniw ac yn cyflogi tua 3,800 o bobl yn uniongyrchol ar draws Cymru.

Cododd y nifer o dunelli o agregau morol a gludwyd i borthladdoedd Cymru o 3% yn 2015 i 691kt, gyda 342kt ohono yn cael ei dynnu o ddyfroedd Cymru. Yn ystod y flwyddyn hefyd llofnodwyd Cytundeb Chwilio ac Opsiwyn ar gyfer cais ar Dywod Cylwys, y mae rhan ohono yn nyfroedd Cymru i'r de o'r Barri.

Yn ogystal â darparu'r deunyddiau crai ar gyfer y diwydiant adeiladu, mae ein h agregau morol yn cael eu defnyddio i ail-lenwi traethau a gwella'r amddiffyniad arfordirol yng Nghymru. Mae'r gweithgareddau yma yn cael effaith gadarnhaol ar economïau lleol trwy annog twristiaeth. Yn dilyn ail-lenwi traeth Bae Colwyn yn llwyddiannus yn 2014 rydym yn parhau i weithio gyda Llywodraeth Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru a rhanddeiliaid eraill i archwilio cyfleoedd am brosiectau blaengar fel rhan o Raglen Rheoli Risg Arfordir Cymru. Er enghraifft, mae tywodlunio yn arfer rheoli arfordirol blaengar sy'n defnyddio agregau morol a symudiad y môr i fwydo traethau a chynyddu gallu tir ar yr arfordir, seilwaith a chymunedau i wrthsefyll y môr. Rydym yn cefnogi egwyddorion tywodlunio a phan fydd hynny'n bosibl byddwn yn defnyddio ein harbenigedd a'n hadnoddau i hwyluso prosiectau dros y blynyddoedd nesaf.

Gweithio gyda'n gilydd dros Gymru Parhad

Cyflwynasom ddull newydd o stiwardiaethar draws Ystâd y Goron yn 2015/16, sy'n canolbwyntio ar waith, sgiliau, yr amgylchedd ac addysg.

Storio trydan ar y tir

Trwy gydol y flwyddyn fe wnaethom barhau i weithio gyda'r datblygwr Snowdonia Pumped Hydro i hwyluso prosiect storio graddfa grid newydd cyntaf Prydain ers dros 30 mlynedd. Bydd y cyfleuster newydd £160 miliwn ger Llanberis yn weithredol erbyn 2019 a bydd yn cynnal hyd at 30 o swyddi a bydd ganddo'r potensial i gynhyrchu bron i 100 MW o drydan.

Cebblau a phibelli

Mae cebblau a phibelli morol yn elfennau hanfodol o seilwaith cyfathrebu ac ynni'r Deyrnas Unedig, a ni sy'n gyfrifol am roi'r hawl i osod, cynnal a chadw a gweithredu asedau o'r fath ar wely'r môr o amgylch Cymru. Yn dilyn adolygiad o'r trefniadau lesio yn ystod y flwyddyn, rydym wedi cyflwyno fframwaith rhent masnachol newydd i gefnogi'r twf a ragwelir mewn cydgyssylltu trydanol, gwella diogelwch y cyflenwad, cynorthwyo i leihau prisiau ynni a helpu i reoli'r amrywiaeth yn y cyflenwad o ddulliau adnewyddadwy newydd.

Rhaglenni stiwardiaeth

Cyflwynasom ddull newydd o stiwardiaeth ar draws Ystâd y Goron yn 2015. Mae ein rhaglen stiwardiaeth yn ceisio ysgogi meddwl yn gynaliadwy a chreu gwerth parhaol ar gyfer y gymuned a'n busnes trwy gryfhau ein perthynas ar draws ein sectorau craidd. Trwy bartneriaeth rydym yn ceisio canolbwyntio'r effaith ar waith, sgiliau, yr amgylchedd ac agweddau addysgol ein prosiectau.

Ymhlith prosiectau eraill yng Nghymru, rydym yn falch o barhau i roi arian a chefnogi Ynni Morol Sir Benfro. Mae'r bartneriaeth hon yn dwyn datblygwyr technoleg, y gadwyn gyflenwi, academyddion a'r sector cyhoeddus at ei gilydd i sefydlu canolfan ragoriaeth ar gyfer creu ynni morol cynaliadwy a masnachol. Yn wreiddiol roedd y bartneriaeth yn gweithio ar Sir Benfro yn unig ond erbyn hyn mae wedi ehangu ei chylch gorchwyl i gynnwys Cymru gyfan.




“Fel cwmni technoleg llif llanw, mae Tidal Energy Limited (TEL) o Gaerdydd wedi gwerthfawrogi agwedd hyblyg ac ymatebol Ystâd y Goron o ran y Cytundebau i Lesio ar ddau safle presennol TEL yn Sir Benfro: ar safle prawf Swnt Dewi, lle gosodwyd tyrbîn llanw graddfa lawn TEL, DeltaStream™ yn llwyddiannus ym mis Rhagfyr y llynedd, a phrosiect Swnt Dewi ar Benmaendewi, lle bwriedir defnyddio hyd at naw dyfais 1.2MW DeltaStream yn 2018/19. Mewn prosiectau fel y rhain bu newidiadau yn y disgwyliadau yng nghyswllt eu defnyddio a gosod offer ar wely'r môr, ac mae Ystâd y Goron wedi bod yn adeiladol bob amser wrth ddatrys y gofynion wrth iddynt newid.”

**Martin Murphy, Rheolwr Gyfarwyddwr,
Tidal Energy Limited**


Uchafbwyntiau Cymru 2015/16

Uchafbwyntiau ariannol Cymru

Refeniw yn ôl gweithgaredd 2016 £m



Gwerth Eiddo yn ôl gweithgaredd 2016 £m



Ystâd y Goron Cymru

Sut y gwnaethom berfformio	Ystâd y Goron Cymru Blwyddyn a ddiweddodd 31 Mawrth 2016 £m	Ystâd y Goron Cymru Blwyddyn a ddiweddodd 31 Mawrth 2015 £m	Cyfanswm Ystâd y Goron Cymru Blwyddyn a ddiweddodd 31 Mawrth 2016 £m	Cyfanswm Ystâd y Goron Cymru Blwyddyn a ddiweddodd 31 Mawrth 2015 £m	Cynnydd (gostyngiad) o'r flwyddyn flaenorol %	Canran o'r cyfanswm %
Refeniw	10.5	11.1	395.1	373.1	(5.4)	2.7
Gwarged gros	10.3	10.2	340.9	322.0	1.0	3.0
Gwerth eiddo	91.6	169.1	11,073.0	10,192.5	(45.8)	0.8
Buddsoddiadau cyfalaf	1.3	1.2	235.8	253.4		
Derbyniadau cyfalaf	83.5	0.1	633.2	451.0		

Refeniw yn ôl gweithgaredd

	Blwyddyn a ddiweddodd 31 Mawrth 2016 £m	Blwyddyn a ddiweddodd 31 Mawrth 2015 £m
Arfordirol	2.0	1.5
Ceblau/pibelli	0.1	0.1
Amaethyddiaeth	0.1	0.1
Coedwigaeth	-	-
Mwynau	0.6	0.7
Cyfanswm Gwledig ac Arfordirol	2.8	2.4
Ceblau/pibelli	0.9	0.8
Troelli	0.5	0.5
Adnewyddadwy	2.6	2.4
Cyfanswm Ynni., Mwynau a Seilwaith	4.0	3.7
Cyfanswm trefol	3.7	5.0
Cyfanswm	10.5	11.1

Gwerth eiddo yn ôl gweithgaredd

	Blwyddyn a ddiweddodd 31 Mawrth 2015 £m	Blwyddyn a ddiweddodd 31 Mawrth 2014 £m
Arfordirol	18.1	17.4
Ceblau/pibelli	1.9	1.9
Amaethyddiaeth	4.4	4.6
Coedwigaeth	0.1	0.1
Mwynau	5.4	3.9
Cyfanswm Gwledig ac Arfordirol	29.9	27.9
Ceblau/pibelli	9.7	9.7
Carthu	5.4	3.2
Adnewyddadwy	46.6	39.9
Cyfanswm Ynni a Seilwaith	61.7	52.8
Cyfanswm trefol	-	88.4
Cyfanswm	91.6	169.1

Alison Nimmo CBE

Llofnodwyd gan yr Ail Gomisinydd a'r Swyddog Cyfrifo ar ran y Bwrdd

21 Mehefin 2016

Gwybodaeth

Ar-lein

Gwefan gorfforaethol:

www.thecrownestate.co.uk

Cyhoeddiadau

Adroddiad Blynyddol 2015/16

Adroddiad yr Alban 2015/16

Uchafbwyntiau Gogledd Iwerddon 2015/16

Y cyfryngau cymdeithasol a diweddariadau

Dilynwch ni ar Twitter:

[@TheCrownEstate](https://twitter.com/TheCrownEstate)

Ymunwch i gael RSS neu negeseuon e-bost:

www.thecrownestate.co.uk

[/get-updates](#)

Ymunwch i gael hysbysiad adroddiad blynyddol ar-lein yn:

www.thecrownestate.co.uk

[/reportsignup](#)

Llundain

The Crown Estate

16 New Burlington Place

Llundain/London

W1S 2HX

Ff 020 7851 5000

Adroddiad y Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol i Gomisiynwyr Ystâd y Goron

Rwyf wedi archwilio datganiadau ariannol Ystâd y Goron am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2016, y tynnwyd y wybodaeth ariannol ar dudalen 7 ohono, yn unol â'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio. Yn fy adroddiad dyddiedig 16 Mehefin 2016, mynegais farn ddiamwys ar y datganiadau ariannol y tynnwyd y wybodaeth ariannol ohonynt.

Yn fy marn i, mae'r wybodaeth ariannol sy'n cyd-fynd wedi cael eu tynnu yn gywir, ym mhob agwedd berthnasol, o'r cofnodion cyfrifyddu a ddefnyddiwyd i lunio'r datganiadau ariannol a archwiliwyd y tynnwyd hwy ohonynt.

Am well dealltwriaeth o sefyllfa ariannol Ystâd y Goron a chanlyniadau ei gweithrediadau am y cyfnod a chwmpas ein harchwiliad, dylid darllen y wybodaeth ariannol ar y cyd â'r datganiadau ariannol y tynnwyd y wybodaeth ariannol ohonynt a'n hadroddiad archwilio arnynt.

Sir Amyas C E Morse

Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol

Swyddfa Archwilio Genedlaethol
157-197 Buckingham Palace Road
Victoria, Llundain SW1W 9SP
SW1W 9SP

23 Mehefin 2016